Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i'r Defnydd o Welyau Haul a'u Rheoleiddio

Tachwedd 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gwasanaeth y Pwyllgor
Stephen George – Clerc y Pwyllgor
Abigail Phillips – Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Karl Gomila – Swyddog Cymorth i'r Pwyllgor

Gwasanaeth Ymchwil Aelodau
Neil Cox – Prif Swyddog Ymchwil
Rebekah James – Uwch Swyddog Ymchwil

Gallwch gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon oddi wrth:

Gwasanaeth y Pwyllgor
Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: health.wellbeing.localgovt.comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i'r Defnydd o Welyau Haul a'u Rheoleiddio

Tachwedd 2009

Cynnwys

Aelodau'r Pwyllgor

Rhagair y Cadeirydd

Prif Adroddiad		**Tudalen**
Adran 1	Rhagarweiniad	1
Adran 2	Casgliadau ac Argymhellion Canolog	3
Adran 3	Y Defnydd o Welyau Haul a Chyfleusterau	4
Adran 4	Goblygiadau Defnyddio Gwelyau Haul i Iechyd	7
Adran 5	Y Sefyllfa Sydd Ohoni o Ran Rheoleiddio	16
Adran 6	Yr Achos dros Fwy o Reoleiddio	20
Adran 7	Materion Eraill	24
Adran 8	Crynodeb o Argymhellion	26
Adran 9	Monitro	28
Adran 10	Ychwanegiad – Gwybodaeth Bellach oddi wrth Consol Suncenter	29

Atodiadau

A.	Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol	30
B.	Amserlen Papurau Cyhoeddedig y Pwyllgor a Thrawsgrifiadau	31
C.	Ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth Ysgrifenedig	32
Ch.	Llythyr dyddiedig 26 Hydref oddi wrth Consol Suncenter	33

Aelodau'r Pwyllgor

Darren Millar
(Cadeirydd)
Plaid Geidwadol Cymru
Gorllewin Clwyd

Lorraine Barrett
Llafur
De Caerdydd a Phenarth

Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru

Andrew R T Davies
Plaid Geidwadol Cymru
Canol De Cymru

Irene James
Llafur
Islwyn

Ann Jones
Llafur
Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones
Plaid Cymru
Llanelli

Dai Lloyd
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Val Lloyd
Llafur
Dwyrain Abertawe

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r dyhead i fod â lliw haul ac edrych yn iach yn un a fydd yn gyfarwydd i'r mwyafrif o bobl. Holl ddiben mynd ar wyliau dramor, i lawer, yw dod yn ôl adref â lliw haul euraidd y bydd ein ffrindiau a'n cymdogion yn genfigennus ohono. Wrth gwrs, mae'r realiti'n wahanol iawn. Bydd llawer ohonom, yn y pen draw, yn edrych mwy fel cimwch na rhywun y mae'r haul wedi'i gusanu. A deallir fwyfwy bod y cysylltiad rhwng lliw haul ac iechyd da yn un ffug.

Y gwir yw fod yr haul yn gallu bod yn ddrwg i ni; mae dod i gysylltiad â'i belydriad yn niweidio ein croen, yn ein heneiddio cyn pryd ac, yn yr achosion gwaethaf, yn achosi afiechydon croen difrifol neu angheuol. Mae croen ifanc yn arbennig o agored i niwed, sy'n ofidus gan fod pobl ifanc hefyd yn arbennig o agored i gael eu dylanwadu gan ddelweddau'r cyfryngau sy'n aml yn portreadu lliw haul fel rhywbeth iach a dymunol. Y gwir yw fod miloedd o bobl y flwyddyn yn marw o ganser y croen, ac mae nifer yr achosion o'r afiechydon hyn wedi cynyddu bedair gwaith yn ystod y 3 degawd diwethaf.

Os yw'r haul yn ddrwg i ni, gall gwelyau haul fod yn waeth fyth. Maent yn darparu pelydriad ar lefelau crynodedig mewn hyrddiau a allai fod yn farwol. Gall yr effeithiau fod yn hynod ddifrifol. Gall dod i gysylltiad â'u pelydriad am gyfnod cymharol fyr arwain at losgiadau gradd gyntaf, a gall fod yn angheuol o bosibl. Nid oes modd meintioli'r risgiau iechyd tymor hir, yn enwedig i blant a phobl ifanc, ond maent hefyd yn aml yn ddifrifol.

O ystyried y risgiau, mae'n syndod efallai nad yw'r diwydiant gwelyau haul yn cael ei reoleiddio brin o gwbl.

Efallai nad yw'n syndod bod hyn wedi arwain at nifer o achosion tra amlwg lle mae plant wedi'u llosgi'n ddifrifol trwy ddefnyddio salonau gwelyau haul nad ydynt wedi'u rheoleiddio na'u goruchwylio. Dyma, yn anad dim, a achosodd i ni ymgymryd â'r adolygiad hwn, a'r ffactorau hyn sydd wedi ein darbwyllo mai nawr yw'r amser i gymryd camau pendant i amddiffyn y cyhoedd a rheoleiddio'r diwydiant gwelyau haul.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar argymhellion pwysig a fydd yn sicrhau bod y rheini sy'n parhau i ddefnyddio salonau gwelyau haul yn gallu gwneud hynny mor ddiogel ac mor gyfrifol â phosibl. Rwy'n ei gymeradwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac i'r Cynulliad.



Darren Millar AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

Tachwedd 2009

Adran 1 - Rhagarweiniad

Cefndir

1.1 Mae wedi bod yn fater o bryder cyhoeddus penodol bod plant yn defnyddio salonau lliw haul heb oruchwyliaeth. Bu nifer o achosion tra amlwg yn ddiweddar yn ymwneud â niwed i blant a phobl ifanc yn sgil defnyddio gwelyau haul. Mae hyn wedi codi cwestiynau ynglŷn ag effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoleiddio presennol, a galw am reoleiddio cyfleusterau lliw haul yn fwy llym. Roedd hefyd yn bryder i ni glywed am dystiolaeth ddiweddar, awdurdodol yn ôl pob golwg, sy'n dangos cysylltiad eglur rhwng defnyddio gwelyau haul a risg gynyddol o ganserau'r croen.

1.2 Yn ngoleuni hyn, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad byr i archwilio'r dystiolaeth bresennol ar y risgiau i iechyd y mae gwelyau haul yn eu hachosi. Roeddem am ddarganfod beth oedd y risgiau, a sicrhau ei bod mor iach a diogel â phosibl i ddefnyddio gwelyau haul. Roeddem hefyd am ddarganfod pa bwerau cyfreithiol sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd i wella'r rheoleiddio ac, os byddai angen, p'un a ddylai geisio mwy o bwerau i wneud deddfau newydd ar gyfer Cymru i sicrhau bod gwelyau haul yn cael eu defnyddio mewn modd mor ddiogel â phosibl.

Cylch Gorchwyl

1.3 Gwnaethom gytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

"Edrych ar:

- effeithiau gwelyau haul ar iechyd pobl,
- y dulliau o reoleiddio cyfleusterau gwelyau haul, a
- chymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu er mwyn rheoleiddio yn y maes".

1.4 Ymhlith y materion eraill y gwnaethom benderfynu eu hystyried oedd:

- y defnydd o welyau haul gan blant
- y gor-ddefnydd o welyau haul
- goruchwylio defnyddwyr gwelyau haul
- y defnydd o beiriannau a weithredir gan ddarnau arian
- monitro a chyfyngu ar sesiynau gwelyau haul
- darparu gwybodaeth am berygl posibl i iechyd mewn canolfannau gwelyau haul
- archwilio canolfannau

Tystion a Thystiolaeth

1.5. Gwnaethom gymryd tystiolaeth lafar oddi wrth Ymchwil Canser y DU, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a Chymdeithas Feddygol Prydain, pob un ohonynt wedi galw am reoleiddio salonau lliw haul mewn modd mwy cyfarwyddol. Gwnaethom hefyd gymryd tystiolaeth

lafar oddi wrth y gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli diwydiant gwelyau haul y DU, sef y Gymdeithas Gwelyau Haul, ac oddi wrth Consol Suncenter, sy'n gweithredu mwyafrif y stiwdios lliw haul yn y DU sydd wedi'u staffio'n rhannol ac a weithredir gan ddarnau arian. Yn olaf, clywsom oddi wrth Dr Dafydd Roberts, sef Dermatolegydd Ymgynghorol a chynghorydd i Adran Iechyd y DU, ac oddi wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Edwina Hart AC, ynghyd â Phrif Swyddog Meddygol a Dirprwy Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru.

Adran 2 - Casgliadau ac Argymhellion Canolog

Casgliadau Canolog

2.1 Casgliadau canolog y Pwyllgor yw:

- bod yna dystiolaeth dda i awgrymu bod defnyddio gwelyau haul yn achosi canser y croen;
- tra nad oes unrhyw ddos sy'n gwbl ddiogel, bod plant a phobl ifanc yn enwedig mewn perygl;
- nad yw'r fframwaith rheoleiddio presennol yn darparu digon o amddiffyniadau rhag camddefnyddio gwelyau haul, yn enwedig gan blant a phobl ifanc.

Crynodeb o Argymhellion Canolog

Dylai Llywodraeth Cymru geisio'r cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno deddfau newydd er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i reoleiddio a thrwyddedu cyfleusterau gwelyau haul a'u gweithredwyr a, lle bo angen, i orfodi rhwymedigaethau a chreu troseddau mewn cysylltiad â nhw.

Dylid seilio'r deddfau hyn ar argymhellion 1 a 2 trydydd adroddiad ar ddeg COMARE[1] ar yr effeithiau ar iechyd a'r risgiau yn sgil dod i gysylltiad â phelydriad uwchfioled o ddyfeisiau lliw haul.

Dylai'r ddeddf sicrhau o leiaf:

- **bod rhai dan 18 oed yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gwelyau haul;**
- **bod grwpiau risg uchel eraill yn cael eu hannog i beidio â'u defnyddio;**
- **bod cyfleusterau'n darparu goruchwyliaeth amser llawn gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda;**
- **ei bod yn orfodol gwisgo sbectol amddiffynnol;**
- **bod gwybodaeth sy'n manylu ar risgiau iechyd posibl defnyddio gwelyau haul wedi'i harddangos yn amlwg, a'i bod yn cael ei darparu i bob defnyddiwr;**
- **y dylid gwahardd unrhyw wybodaeth mewn canolfannau sy'n cynnwys honiadau heb eu profi o fuddiannau iechyd yn sgil defnyddio gwelyau haul;**
- **bod pob cleient yn cydsynio'n ysgrifenedig ar sail penderfyniad cytbwys cyn eu defnyddio; ac**
- **na ddylid caniatáu i gyfleusterau ddefnyddio gwelyau haul nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig ac Ewropeaidd ynglŷn â lefelau arbelydriad gwelyau haul[2].**

[1] Y Pwyllgor ar Agweddau Meddygol ar Belydriad yn yr Amgylchedd (COMARE) – y Trydydd Adroddiad ar Ddeg "The health effects and risks arising from exposure to ultraviolet radiation from artificial tanning devices." Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, Mehefin 2009.

[2] (BS EN 60335-2-27:2003) Yn enwedig peidio â mynd y tu hwnt i arbelydriad gwelyau haul o 0.3 W m−2.

Adran 3 - Y Defnydd o Welyau Haul a Chyfleusterau

Nifer y Cyfleusterau

3.1 Nid yw'n hollol glir faint o gyfleusterau gwelyau haul masnachol sydd yn y DU. Dywedodd COMARE [3] (y Pwyllgor ar Agweddau Meddygol ar Belydriad yn yr Amgylchedd) yn ei drydydd adroddiad ar ddeg fod y Gymdeithas Gwelyau Haul wedi amcangyfrif bod yna 8,000 ohonynt, ac mae'r nifer hwn yn cynyddu. Dywedodd Kathy Banks o'r Gymdeithas Gwelyau Haul wrthym [4] mai eu hamcangyfrif nhw oedd bod yna gyfanswm o rywbeth rhwng 6,000 a 7,000 o ganolfannau lliw haul. O'r rhain, mae tua 20% yn aelodau o'r Gymdeithas Gwelyau Haul[5].

3.2 Yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym mewn tystiolaeth ysgrifenedig[6]:

> "Ar 21 Gorffennaf 2009, gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu ystadegau ynghylch nifer y salonau lliw haul yn ardal pob awdurdod lleol. Roedd yr wybodaeth a geisiwyd yn cynnwys dadansoddiad yn nodi a yw'r salonau lliw haul dan oruchwyliaeth / heb oruchwyliaeth, nifer y gwelyau haul a weithredir gan ddarnau arian, nifer a math y gwelyau ym mhob eiddo a'r math o eiddo lle mae'r gwelyau i'w cael (os nad ydynt mewn salonau pwrpasol). … Mae'r swyddogion yn dal i ddisgwyl ffigurau gan un awdurdod lleol, ond mae'r 21 o ymatebion a gafwyd hyd yn hyn wedi hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o 419 o fannau lliw haul. O'r rhain, mae 46 (11%) yn salonau heb eu staffio."

3.3 Mae gan y Gymdeithas Gwelyau Haul tua 100 o aelodau yng Nghymru[7], a dywedodd Consol Suncenter, sy'n gweithredu 90 o'r 120 o stiwdios a weithredir gan ddarnau arian yn y DU,[8] wrthym fod ganddynt 12 o stiwdios yng Nghymru[9]. Mae hyn fwy neu lai yn gyson ag astudiaeth 2008 a gynhaliwyd gan y Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ledled 8 o awdurdodau lleol yn Ne Ddwyrain Cymru sy'n cynnwys tua 41% o boblogaeth Cymru[10]. Darganfu hyn fod yna tua 120 o ganolfannau yn yr awdurdodau dan sylw[11].

Mathau o Gyfleusterau Lliw Haul

3.4 Mae'n ymddangos mai cyfran fach iawn yn unig o ganolfannau ledled y DU "a weithredir gan ddarnau arian" neu sydd heb oruchwyliaeth. Dywedodd y Gymdeithas Gwelyau Haul wrthym mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod salonau lliw haul sydd heb eu staffio'n cynrychioli tua 2% o gyfanswm y

---

[3] COMARE- Y Trydydd Adroddiad ar Ddeg, paragraff 8.15
[4] Cofnod y Trafodion – Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol 9 Gorffennaf 2009 - paragraff 172
[5] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 176
[6] Papur Pwyllgor 30 Medi – papur Cyf HWLG(3)-20-09 "Ystadegau ar Welyau Haul a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru"
[7] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 180
[8] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 2 (paragraff agoriadol)
[9] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 81
[10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2008
[11] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 2 (tudalen 14)

canolfannau lliw haul yn y DU, yn ôl yr amcangyfrif.[12] Cadarnhawyd hyn gan Consol Suncenter sy'n gweithredu 90 o stiwdios a weithredir gan ddarnau arian yn y DU, gan gynnwys 12 yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos o dystiolaeth y Gweinidog fod cyfran y canolfannau a weithredir gan ddarnau arian neu sydd heb oruchwyliaeth yng Nghymru'n sylweddol uwch ar 11% na'r 2% a amcangyfrifir ledled y DU.

3.5 Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig[13], dygodd y Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd sylw at y ffaith fod nifer yr awdurdodau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n darparu cyfarpar lliw haul uwchfioled yn eu cyfleusterau ar drai (o 74% ym 1999 i 52% yn 2006). Ar ddechrau ein Hymchwiliad, 3 awdurdod lleol yn unig yng Nghymru oedd yn darparu gwelyau haul yn eu canolfannau. Yn ystod yr ymholiad, mae pob un o'r tri wedi cytuno i roi'r gorau i ddarparu'r cyfleusterau hyn.[14]

Y Defnydd o Welyau Haul

Y Boblogaeth Gyffredinol

3.6 Dywedodd Kathy Banks o'r Gymdeithas Gwelyau Haul wrthym fod ymchwil i'r farchnad o tua 7,000 o bobl, a gynhaliwyd ar ddiwedd y 1990au, wedi dangos[15]:

> "that 3 million people use sunbeds, and that over 80 per cent of those were very knowledgeable about the risks associated with overexposure. Over 80 per cent took less than 20 sunbed sessions a year…"

3.7 Ni wnaethom dderbyn unrhyw dystiolaeth eglur arall a oedd yn manylu ar sut mae llawer o bobl yn y boblogaeth gyffredinol yn defnyddio cyfleusterau lliw haul, na pha mor rheolaidd. Fodd bynnag, mae ffigyrau Ms Banks a nifer mawr y canolfannau lliw haul masnachol yn awgrymu bod nifer sylweddol o bobl yn defnyddio gwelyau haul yn rheolaidd.

Pobl Ifanc

3.8 Mae yna wybodaeth sydd rhywfaint yn well am bobl ifanc yn eu defnyddio, diolch i astudiaeth y gwnaeth Llywodraeth Cymru ei chomisiynu gan Ymchwil Canser y DU. Bu'r astudiaeth yn archwilio'r graddau y mae pobl dan 18 oed yn defnyddio gwelyau haul yng Nghymru, a beth yw'r patrwm[16]. Darganfu'r astudiaeth, yn gyffredinol, y dywedodd 8.2% o'r holl blant rhwng 11 a 17 oed eu bod wedi defnyddio gwely haul o leiaf unwaith, a dywedodd 16.0% arall ei bod yn bosibl y byddant yn defnyddio gwelyau haul yn y dyfodol. Roedd y defnydd yn uwch o lawer ymhlith merched (16.7%) na bechgyn (1.8%). Roedd plant hŷn (rhwng 15 a 17 oed) hefyd yn defnyddio gwelyau haul yn amlach (11.0%) a dywedodd mwy nag un o bump o ferched (22.5%) yn y grŵp oedran hwn eu bod yn defnyddio gwelyau haul.

3.9 Roedd yn ymddangos bod gwaith a wnaed gan Dr Dafydd Roberts[17] gyda 200 o ddisgyblion 14-15 oed mewn ysgolion yng Nghastell-nedd ac Abertawe yn dangos cyfraddau defnydd uwch fyth. Roedd 32.1% o

[12] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 3 (paragraff 2)
[13] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 2 (tudalen 3)
[14] Gweler er enghraifft: http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_east/8290932.stm
[15] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 277
[16] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 1 (tudalen 14)
[17] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 3

ferched a 9.6% o fechgyn wedi defnyddio gwelyau haul, ac roedd 18% pellach o ferched yn ystyried eu defnyddio yn y dyfodol agos. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod mwyafrif y plant dan sylw (85.3% o fechgyn a 89.9% o ferched) yn gwybod y gallai defnyddio gwely haul achosi canser y croen nes ymlaen yn eu bywyd. Mewn tystiolaeth lafar, dygodd Dr Roberts ein sylw hefyd at ddiwylliant ymhlith teuluoedd a oedd yn ystyried bod defnyddio gwelyau haul yn brofiad cadarnhaol iawn[18]:

> "The majority of the children used unmanned sunbed salons, but there were quite a significant number of them—this shocked me as well—for whom it was part of the family weekend. The whole family, on a Saturday afternoon, would go down to the sunbed parlour. That was their treat. So, 14-year-olds and 16-year-olds and their families would spend the afternoon in the sunbed parlour. It was just absolutely amazing. I was absolutely shocked when I got those results back."

3.10 Mae'r adroddiad diweddaraf oddi wrth COMARE hefyd yn manylu ar wybodaeth o nifer o astudiaethau, yn y DU ac yn rhyngwladol, sydd wedi dangos yn gyson, i bob golwg, bod pobl ifanc dan 16 oed yn defnyddio gwelyau haul yn sylweddol, gan gynnwys plant mor ifanc ag 8 oed, a'i bod yn amlwg bod merched yn eu defnyddio'n fwy na bechgyn[19].

3.11 Mae'r ffigyrau uchod yn awgrymu nad yw'r defnydd o welyau haul wedi'i gyfyngu i'r rheini nad ydynt yn ymwybodol o'r peryglon, neu i'r rheini sydd â rhieni yr ystyrir o bosibl bod ganddynt agwedd anghyfrifol tuag at les eu plant. Cafodd merch 14 oed Mrs Jill McRae, Kirsty, ei llosgi'n ddrwg wrth ddefnyddio cyfleuster lliw haul heb oruchwyliaeth, a dywedodd wrthym mewn tystiolaeth lafar[20]:

> "As a family, we have always taken a responsible attitude to the sun and used the appropriate products, considered the time spent in the sun and the time of day we were in the sun. I am therefore quite happy that in educating her about natural sunlight and sun damage, I did as much as I could as a parent. I had expressly forbidden her to even consider using a sunbed, and, as has been reported previously, I acknowledge that she went against my wishes and she acknowledges her responsibility in that respect as well. The concern is that the operation of such a salon allowed her a facility to misuse the bed."

Casgliadau

3.12 Ein casgliad yw:

- bod nifer sylweddol o bobl yn defnyddio canolfannau lliw haul masnachol yn rheolaidd.
- bod pobl ifanc dan 16 oed, gan gynnwys plant mor ifanc ag 8 oed, yn defnyddio gwelyau haul yn rheolaidd.
- bod y defnydd ymhlith merched yn sylweddol uwch nag ymhlith bechgyn.
- bod plant yn aml yn defnyddio gwelyau haul er eu bod yn ymwybodol o'r risgiau.

[18] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 214
[19] COMARE- Y Trydydd Adroddiad ar Ddeg, pennod 5
[20] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 28

Adran 4 - Goblygiadau Defnyddio Gwelyau Haul i Iechyd

Risgiau i Iechyd

Amledd Achosion Canser y Croen

4.1 Rhoddodd Ymchwil Canser y DU yr wybodaeth a ganlyn i ni am amledd achosion canser y croen yn y DU [21] a chost ei drin:

> "There are two main types of skin cancer: non-melanoma skin cancer, which is very common, and malignant melanoma which is less common but more serious.
>
> Registration of non-melanoma skin cancer is incomplete. More than 81,600 cases of non-melanoma skin cancer were registered in 2006 but it is estimated that the actual number is at least 100,000 cases in the UK each year.[i]
>
> More than 10,400 cases of malignant melanoma were diagnosed in the UK in 2006, with 505 in Wales. There were 2,042 deaths from malignant melanoma in the UK in 2007,113 in Wales.[ii]
>
> Malignant melanoma incidence rates in Britain have more than quadrupled since the 1970s.[iii]
>
> In regards to the demand on NHS services, skin complaints comprise 10-25 per cent of general practice workload.[iv] It is estimated that skin cancer accounts for 30 per cent of a consultant dermatologist's workload and one third of all the plastic surgery on the NHS.[v] Although the costs of skin cancer are not available for Wales, a recent report revealed the total cost of skin cancer in England to be in excess of £190million in 2002, of which 37 per cent (£71million) was borne by the NHS.[vi] It has been estimated that 63 per cent of the total cost of skin cancer was due to malignant melanoma[vii].
>
> Like most cancers, skin cancer is more common with increasing age, but malignant melanoma is disproportionately high in younger people. Almost one third of all cases of malignant melanoma occur in people under 50 and malignant melanoma is now the most common cancer in young adults (aged 15-34) in the UK. Malignant melanoma is more than twice as common in young women (up to age 34) as in young men, but more men die from it. On average, about 20 years of life are lost for each melanoma death.[viii]
>
> Over the last twenty-five years, rates of malignant melanoma in Britain have risen faster than any other common cancer."

4.2 Fodd bynnag, yn eu hymateb i adroddiad y Grŵp Seneddol Pob Plaid ar Groen ym mis Tachwedd 2008[22], roedd Consol Suncenter hefyd yn dadlau bod ffigyrau ar amledd achosion canser y croen yn cael eu

---

[21] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 1(gweler y papur i gael gwybodaeth am y troednodiadau gwreiddiol)

[22] Llythyr oddi wrth Lene Priess, Cyfarwyddwr, Consol Suncenter at y Gwir Anrh Bruce George AS, Cadeirydd y Grŵp Seneddol Pob Plaid ar Groen – 17eg Tachwedd 2008

chwyddo trwy gynnwys canserau croen anfalaen nad ydynt, yn ôl eu honiad nhw, yn ganserau o gwbl:

> "The term "skin cancer" is used to refer to benign skin lesions as well as Malignant Melanoma and the risk of contracting Malignant Melanoma are recognised as being much smaller than quoted statistics suggested. It is also on the bottom of the mortality table.
>
> There is some scientific and medical proof that ultraviolet rays are associated with the main non malignant "skin cancers" (basal and squamous) which are not infact "cancers" at all, but their classification as such boosts diagnosis statistics. They develop in pale, sun exposed skin, are related to degree of exposure and latitude, are fewer with avoidance and protection, are easily produced experimentally, and are the predominant tumour in xeroderma pigmentosum, where DNA repair of ultraviolet light damage is impaired."

4.3 Ni allwn dderbyn y safbwynt hwn sydd, i bob golwg, yn groes i dystiolaeth feddygol a dderbynnir yn eang. Fel y dywedodd Dr Andrew Dearden o Gymdeithas Feddygol Prydain wrthym mewn tystiolaeth lafar[23]:

> "…does that mean that mild diabetes should not be called diabetes? Just because something is mild and not life-threatening, does that make it not what it is? So, is mild asthma not asthma? I use a slightly light-hearted term, but a classification is based on its cellular nature, namely what it is, and what it is should determine how we count it. Usually, people want to reclassify a condition to try to make it look less troublesome or more troublesome, as the case may be. My fear with those who wish to reclassify anything is that their reasons for doing so are, shall we say, not in the public good.
>
> This is a cancer. It needs to be treated and taken care of as a cancer. I do not think that we should reclassify it to change the way we count it."

Risgiau Lliw Haul i Iechyd

Y Boblogaeth Gyffredinol

4.4 Dygodd Cymdeithas Feddygol Prydain ein sylw yn eu tystiolaeth ysgrifenedig [24] at weithgor yr Asiantaeth Ryngwladol Ymchwil Canser a oedd wedi rhoi dyfeisiau lliw haul sy'n gollwng pelydrau uwchfioled yn y categori 'carsinogenig i bobl'. Dywedodd papur Cymdeithas Feddygol Prydain:

> "On 29th July 2009 the International Agency for Research on Cancer (IARC) raised the classification of ultraviolet-emitting tanning devices from "probably carcinogenic to humans" to "carcinogenic to humans"—the highest risk category—based on evidence of a substantially higher risk of cutaneous melanoma in those who regularly used sunbeds. IARC's assessment leaves no doubt about the carcinogenic potential of sunbeds:

[23] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraffau 16-17
[24] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 1

"The use of UV-emitting tanning devices is widespread in many developed countries, especially among young women. A comprehensive meta-analysis concluded that the risk of cutaneous melanoma is increased by 75% when use of tanning devices starts before 30 years of age. Additionally, several case-control studies provide consistent evidence of a positive association between the use of UV-emitting tanning devices and ocular melanoma. Therefore, the Working Group raised the classification of the use of UV-emitting tanning devices to Group 1, "carcinogenic to humans".

4.5 Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig [25] oddi wrth Tenovus:

"The link between UV radiation exposure from sunbeds and skin cancer was emphasised in July this year when the International Agency for Research on Cancer announced that it was reclassifying UV-emitting tanning devices as a Group 1 carcinogen. This places them in the same class of cancer causing factors as exposure to Asbestos, Benzene, Tobacco and Radium".

4.6 Yn groes i hyn yw'r dystiolaeth oddi wrth y Gymdeithas Gwelyau Haul. Pan ofynnwyd i Kathy Banks o'r Gymdeithas Gwelyau Haul esbonio'u barn nad oes unrhyw gysylltiad profedig rhwng defnydd cyfrifol o welyau haul a niwed i'r croen, dywedodd wrthym [26]:

"In terms of a proven link, some people have claimed that they have contracted skin cancer because of sunbed use. First of all, that is normally self-diagnosis. To prove that someone has specifically got cancer through sunbed use alone, he or she would have to say that he or she had not been out in natural sunlight for about 20 to 30 years—that he or she had basically been locked away, never seen sunlight and just used a sunbed."

Fodd bynnag, dylid nodi i Ms Banks roi tystiolaeth cyn y cyhoeddwyd dosbarthiad diwygiedig yr Asiantaeth Ryngwladol Ymchwil Canser ar 29 Gorffennaf 2009. Dylid nodi hefyd na wnaeth ddadlau nad oedd yna unrhyw risgiau ynghlwm â defnyddio gwelyau haul; yn hytrach, ei dadl oedd fod y risgiau'n fach iawn pan roedd gwelyau haul yn cael eu defnyddio'n gyfrifol, ac o'u cymharu â risgiau dod i gysylltiad â phelydriad heulwen naturiol[27]:

"No, we say that provided that you use sunbeds sensibly and moderately and sunbathe outside sensibly and moderately—because I agree that you have to look at people's total exposure—there is minimum risk. We never say that sunbeds are safe—we say that they are safer and are of minimum risk, provided that you use them responsibly. The risk of damaging your skin comes through abuse and overexposure."

4.7 Gwnaeth Sam Kirby o Consol Suncenter bwyntiau tebyg[28]:

[25] Papur Pwyllgor 21 Hydref – Cyf HWLG(3)-22-09 papur 10
[26] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 287
[27] Ibid – paragraff 289
[28] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 167

"I think that there is certainly a consensus of opinion among scientists and medics that burning may increase the risk of skin cancer. It is not possible to say that using a sunbed has that kind of direct detrimental link to health, because in order for research to be able to do that you would have to study people that have only ever used a sunbed and never exposed themselves to UV light.

I think that what is critical is that we make the public very aware about the importance of limited exposure to UV light and sensible tanning."

Pobl Iau

4.8 Yn ogystal â risgiau cyffredinol lliw haul i iechyd, gwnaethom hefyd geisio darganfod p'un a oedd mwy o risg i iechyd ymhlith pobl iau. Fel yr amlinellir uchod, darganfu gweithgor yr Asiantaeth Ryngwladol Ymchwil Canser bod risg melanoma ar y croen yn cynyddu cymaint â 75% pen ddechreuir defnyddio dyfeisiau lliw haul cyn dod yn 30 mlwydd oed. Mae 13eg adroddiad COMARE [29] yn gwneud y pwynt:

"It is well established for solar UV radiation exposure that excessive exposure in the first two decades of life increases the risk of melanoma developing later in life. It is therefore possible that exposure to UV radiation emissions from sunbeds in childhood and adolescence could be even more damaging to the skin in the long term, than use after the age of 20 years. Moreover there are significant concerns about the ability to accumulate very large doses over time (see paragraph 4.20) and use of sunbeds earlier in life may result in greater lifetime accumulation.

4.9 Roedd y rheini a roddodd dystiolaeth i ni, gan gynnwys y Gymdeithas Gwelyau Haul a Consol Suncenter, yn gytûn ar y cyfan nad oedd yn beth dymunadwy i blant dan 16 oed ddefnyddio gwelyau haul. Mae'r Gymdeithas Gwelyau Haul yn gorfodi cyfyngiad oedran o o leiaf 16 oed[30] ar ei aelodau, a felly hefyd Consol Suncenter[31].

4.10 Mae'r cyfyngiad 16 oed yn unol â chyngor hirsefydlog yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a sefydlodd 16 oed fel oedran ieuengaf ar gyfer defnyddio gwelyau haul. Fodd bynnag, ym mis Mai eleni fe gyhoeddodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gyfarwyddyd newydd[32] yn newid yr oed ieuengaf i 18 oed. Er gwaethaf hyn, dywedodd y Gymdeithas Gwelyau Haul wrthym[33] nad oeddent wedi'u argyhoeddi bod angen cyfyngiad 18 oed:

"We are aware that the HSE guidance now recommends that no-one under 18 should use sunbeds, and we are aware that this will become law in Scotland at the end of this year. TSA is not convinced that we need to raise our age level from 16 to 18. In terms of medical and

[29] Paragraff 5.1
[30] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 3 (paragraff 3)
[31] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 94
[32] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, *Reducing Health Risks from the Use of Ultraviolet (UV) Tanning Equipment* (INDG209), Mai 2009: http://www.hse.gov.uk/pubns/indg209.pdf
[33] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 214

scientific evidence, there is no difference between the skin type of a 16, 17 or 18-year-old. If it is a case of responsibility, and whether 16 and 17-year-olds are responsible enough, we believe that the majority of them are. If unstaffed tanning salons did not exist, they would have to go into a tanning salon where staff are available. However, we will debate over the next three or four months whether we stay with 16 or move to 18."

4.11 Dadl Consol Suncenter, yn syml, oedd mai ychydig iawn, os o gwbl, o'u cwsmeriaid oedd dan 18 oed beth bynnag:

"We have very few people who say that they are under the age of 18 using a studio. So, most of our customers are in their 20s and early 30s."

Buddiannau Iechyd Honedig yn Sgil Defnyddio Gwelyau Haul

4.12 Mae nifer o honiadau wedi'u gwneud bod yna nifer o Fuddiannau Iechyd yn sgil defnyddio gwelyau haul. Mae gwefan y Gymdeithas Gwelyau Haul [34] yn honni:

"The main benefit of being tanned is seen as looking and feeling healthier. The main reason for using a sunbed is for a pre-holiday tan. Whilst the sun protection factor from a sunbed tan does not provide total protection, people having a base tan are less likely to over-expose themselves during the initial days of a holiday."

4.13 Mae gwefan Consol Suncenter yn honni:

"Q. What are the benefits of tanning on a sunbed?

A. There are a wide range of known physical and psychological benefits. Developing a base tan can provide four times the level of protection for your skin when you are outdoors. UV rays provide an important source of Vitamin D which is essential for the body's absorption of calcium. It regulates the growth and repair of bones and strengthens the immune system. Sensible tanning can alleviate the effects of skin disorders such as acne, eczema and psoriasis. It is an excellent mood-enhancer. There is also evidence that UV rays can help prevent certain cancers.

Q. I would like to use sunbeds in winter but I am worried about health risks.

A. Current extensive international research show there is no connection between responsible indoor tanning and negative health issues. In fact, research on breast cancer, prostate cancer and colon cancer show that regular sun exposure may play a key part in preventing these diseases. Research also shows that moderate use of sunbeds can help reduce blood pressure, boost Vitamin D in the body (which helps protect against bone diseases such as osteoporosis), enhance mood in the winter months, help treat depression, alleviate skin disorders such as eczema and protect skin against burning.[35]"

---

[34] Gwefan y Gymdeithas Gwelyau Haul: http://www.sunbedassociation.org.uk/didyouknow.php
[35] Gwefan Consol Suncenter: http://www.consol.uk.com/article.aspx?menuid=101&id=101 [cyrchwyd 22 Medi 2009]

4.14 Gwnaeth tystion eraill herio'r rhan fwyaf o'r honiadau hyn. Er enghraifft, dywedodd Julie Barratt o'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrthym[36]:

> "The advertisements promoting positive health benefits are spurious, such as the claim about getting your vitamin D from sunbeds. The British Medical Association's evidence suggests that you can have enough vitamin D by outdoors for 20 minutes a day, and not necessarily outdoors in the sun. So to make a claim based on vitamin D is spurious. I also think that the suggestion that you are less likely to over-expose yourself if you already have a base tan is nonsense. If you have a base tan you plainly intend to have a tan and you want to top it up. In relation to sunscreen, our evidence suggests that people who have a tan are less careful in the sun, because they think that they are protected and therefore their behaviour is less careful—I hesitate to use the word 'reckless', but it is certainly less careful—than those people who do not have a tan and are aware that they may be at risk of burning."

4.15 Dywedodd Dr Andrew Dearden o Gymdeithas Feddygol Prydain wrthym[37]:

> "There are health benefits to taking warfarin, a blood thinner, but I would not suggest that you do it without a doctor's advice. Now, allow me to break each one down in turn. Is there any evidence that it helps with the immune system? In fact, there is evidence that it could suppress the immune system, and we have put that information, including references, in our paper.
>
> On vitamin D through sun exposure, that is true. Vitamin D production is stimulated by the sun. However, many people in this country have low vitamin D levels because of the clothes that they wear, such as religious clothes. The best way for them to improve that is by taking vitamin D tablets associated with calcium. We use them with many Asian women, for example, who are pregnant. Many studies have shown that they are quite low in vitamin D, but the quickest and safest way to give them vitamin D is through regulated tablets so that we can control the dose.
>
> On stroke, I know of no evidence of sun exposure decreasing the risk or effects of stroke. The simple thing to do would be to compare the stroke rates in Australia, Iceland, Alaska and the American Midwest. I know of no evidence showing that the stroke rate is lower in sunny climes, which would be the natural evidence that you would find if it were true.
>
> On heart disease, I am really not certain of that.
>
> The only condition for which there is any evidence—it is what we would call 'light' evidence—is for seasonal affective disorder. It is well known that, in the winter, some people feel a little sadder, which sometimes needs to be treated. However, a sunbed is not the treatment of choice, as there are far better and more effective

[36] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 155
[37] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 45-51

treatments. The sun does make people feel better; there is no question about that. However, I do not think that we can evidence any of its health gains.

That said, there is a treatment for psoriasis called PUVA—psoralens and ultraviolet A radiation. That involves taking a tablet of a medication and having UV sessions with a consultant dermatologist. Doses are measured for the purposes of treatment, and treatment stops when it is no longer necessary. It does not continue to the stage at which it would start to damage the skin in a different way.

So, like most things, there are some beneficial effects in certain circumstances, but that is usually when there is a specific disease and there are controlled circumstances. I am sure that you will know of older people who find it easier on the joints to spend the winter in Spain, but that is not a sunlight issue; it is a heat issue, as it is the warmth that creates the benefit."

4.16 A dywedodd y Dermatolegydd Ymgynghorol Dr Dafydd Roberts wrthym[38]:

"There is some evidence that people who have low levels of vitamin D are at high risk of getting internal cancers. It is not a hard fact, and what he said is probably not taken as gospel, by any means. For instance, work that was done in the States showed that people who lived in the northern states—less sunshine—had higher risks of developing things like Parkinson's disease and prostate cancer and some other malignancies as well. So they extrapolated from that that this was due to less sun exposure and low vitamin D levels.

Sunlight increases vitamin D and that is part of the reason why we feel better in the sun. A little bit of sun is fine, but you can get vitamin D easily in other ways—through diet, for example: it is easy to eat vitamin D, and you cannot eat too much of it. You cannot overdose on vitamin D. So, you could make an argument—I would not say in children—that elderly people in nursing homes who never go out should, perhaps, have a sunbed in the corner. If you are 80 years old, the risk of skin cancer in 20 years' time perhaps does not matter that much. Actually, you could just give them vitamin D supplements.

So, if people go outdoors normally, and children do play outside, they will get enough vitamin D. You need 10 to 15 minutes a day in our climate to get enough vitamin D to keep your levels up. You do not need huge amounts."

Lefel Arbelydriad Dyfeisiau Lliw Haul

4.17 Galwodd Consol Suncenter yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar am reoliadau i fabwysiadu safon y mae Pwyllgor Gwyddonol annibynnol y Comisiwn Ewropeaidd ar Gynhyrchion Defnyddwyr wedi'i hargymell. Byddai hyn yn cyfyngu ar arbelydriad o welyau haul i lefel 11 Dos Cochni Safonol (SED) neu 0.3 W/m^2[39]. Mae Consol Suncenter yn honni[40] bod y

[38] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 228-230
[39] Ateb i gwestiwn ysgrifenedig senedd Ewrop E4126/09
[40] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 2 (3ydd paragraff)

cyfyngiad hwn ar lefel mor isel fel nad oes rhyw lawer o risg o gwbl o losgi ar wely haul." Mae'r Pwyllgor Gwyddonol ar Gynhyrchion Defnyddwyr ei hun yn dweud bod y dos uchod ar yr un lefel â haul trofannol. Rydym felly'n amheugar ynglŷn â honiad Consol, yn enwedig gan ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o'u dehongliad o dystiolaeth wyddonol braidd yn ddetholus.

4.18 Rydym hefyd yn nodi bod tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud[41]:

> "Fodd bynnag, nid oes deddfwriaeth benodol ledled y DU sy'n rheoleiddio'r defnydd o welyau haul. Er bod y gwneuthurwyr yn cytuno y dylai pob gwely haul gydymffurfio â'r Safon Brydeinig (BS EN 60335-2-27: 2003) a hefyd ag argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Nwyddau Defnyddwyr mae'r Consol Suncenter wedi honni nad yw'r Safon Brydeinig hon yn cael ei gorfodi gan Lywodraeth y DU."

4.19 Rydym yn cytuno y dylid gorfodi'r holl safonau diogelwch presennol, a byddem yn pryderu pe na bai hyn yn cael ei wneud.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n darganfod oddi wrth Lywodraeth y DU p'un a yw argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Gynhyrchion Defnyddwyr ynglŷn â safonau arbelydriad o welyau haul yn cael eu gorfodi yn y DU ac, os nad ydynt, ei bod yn cyflwyno achos priodol. [Argymhelliad 1]

Risgiau Defnyddio Gwelyau Haul o'u Cymharu â Lliw Haul Naturiol

4.20 O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, mae'n ymddangos yn eglur bod dod i gysylltiad â phelydriad heulwen naturiol a gwelyau haul fel ei gilydd yn niweidiol i iechyd, gan gynnwys risg o afiechyd difrifol ac angheuol. Rydym yn ymwybodol o astudiaethau[42] sydd wedi ceisio meintioli risg ychwanegol dod i gysylltiad â phelydriad gwelyau haul o'i gymharu â heulwen naturiol, ond rydym yn derbyn ei bod yn amhosibl gwneud asesiad hollol awdurdodol o'r risg ychwanegol. Awgrymwyd i ni hefyd[43] mai "lliw haul mewn pyliau" ar wyliau dramor sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd mewn canser y croen sydd wedi'i weld yn ystod blynyddoedd diweddar.

4.21 Rydym o'r farn nad p'un a yw'n niweidiol dod i ormod o gysylltiad â phelydriad gwelyau haul yw'r cwestiwn, ond yn hytrach p'un a yw'r risg ychwanegol mor fawr fel bod angen i'r gyfraith reoleiddio modd pobl o'u defnyddio. Rydym yn dychwelyd at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Casgliadau

4.22 Ein casgliad yw:

- bod yna dystiolaeth dda i awgrymu bod defnyddio gwelyau haul yn achosi canser y croen;

---

[41] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 4 (Cefndir)
[42] Diffey, B. A quantitative estimate of melanoma mortality from ultraviolet A sunbed use in the UK. *Br J Dermatol* 149, 578-81 (2003).
[43] Er enghraifft, Cofnod y Trafodion – 9 Gorffennaf paragraff 11-12

- nad oes unrhyw ddos sy'n gwbl ddiogel, ond bod plant a phobl ifanc yn enwedig mewn perygl;
- nad yw Buddiannau Iechyd lliw haul wedi'u profi a'u bod yn fach iawn ar y gorau;
- gan ystyried y risgiau, y dylid trin unrhyw honiadau o fuddiannau â chryn amheuaeth.

Adran 5 - Y Sefyllfa Sydd Ohoni o Ran Rheoleiddio

Cyfyngiadau Presennol ar Ddefnyddio Gwelyau Haul

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

5.1 Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio gwelyau haul. Mae'r canllawiau hyn yn gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â gweithredu gwelyau haul yn ddiogel, gan gynnwys y cyfarwyddyd oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch na ddylai unrhyw un dan 18 oed eu defnyddio. Fodd bynnag, cynghorol yw'r cyfarwyddyd[44] ac mae'n ymddangos bod gan weithredwyr ryddid i'w anwybyddu os ydynt yn dymuno gwneud hynny[45]. Dywedodd Julie Barratt o'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrthym[46]:

> "The problem with the Health and Safety at Work etc Act is that it is not designed to deal with this sort of thing—it is an umbrella piece of legislation and it is targeted at protecting employees. At some of these sunbed parlours, there are no employees to be protected. It does not protect those people who choose to use the sunbeds except in an accidental way in the case of non-employees who may be affected by the conduct of somebody's business."

Aeth ymlaen i ddweud[47]:

> "I am aware that, currently, two local authorities are wrestling to use the Health and Safety at Work etc Act to try to bring prosecutions relating to incidents. Because the Act does not fit, you are forced to try to squeeze evidence through an unsuitable piece of legislation. It does not, for instance, require training; it requires individual officers to carry out a risk assessment of what they see in front of them, which means that we will not see consistency, because officers will take a different view and they will be looking at premises that are being run in a different way. So, there is no certainty for members of the public who go to sunbed premises as to what conditions they will meet with and whether those conditions are safe, when those premises were last inspected and whether any improvement has been made.

Deddfwriaeth Mewn Mannau Eraill yn y DU

5.2 Yn yr Alban, mae Senedd yr Alban wedi gwneud deddf newydd i reoleiddio defnyddio gwelyau haul. Mae rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Yr Alban) 2008[48] yn ei gwneud yn drosodd i weithredwr gwelyau haul ganiatáu i rywun ddefnyddio gwely haul heb oruchwyliaeth, neu i rywun dan 18 oed ei ddefnyddio. Mae hefyd yn gwahardd pobl dan 18 oed rhag prynu neu logi gwelyau haul. Hefyd, mae'n rhaid i weithredwyr gwelyau haul ddarparu gwybodaeth am effaith gwelyau haul ar iechyd,

---

[44] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-17-09 papur 2 (Cefndir)
[45] Er enghraifft, gweler sylwadau Kathy Banks o'r Gymdeithas Gwelyau Haul a grybwyllwyd ym mharagraff 4.10.
[46] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 115
[47] ibid – paragraff 116
[48] Deddf Iechyd y Cyhoedd ac ati (Yr Alban) asp 5

ac arddangos hysbysiadau gwybodaeth sydd wedi'u pennu gan Weinidogion yr Alban. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf hon wedi dod i rym hyd yma.

5.3 Yn Llundain, mae Deddf Awdurdodau Lleol Llundain 1991[49] yn caniatáu i gynghorau bwrdeistref reoleiddio canolfannau a ddefnyddir ar gyfer triniaethau arbennig. Diffinnir triniaeth arbennig fel:

> "the reception or treatment of persons requiring massage, manicure, acupuncture, tattooing, cosmetic piercing, chiropody, light, electric or other special treatment of a like kind or vapour, sauna or other baths[50]"

5.4 Mewn mannau eraill, rydym yn ymwybodol o drefniadau tebyg mewn rhannau o Loegr, fel Birmingham a Nottingham, lle mae Deddfau Lleol[51] yn darparu ar gyfer trwyddedu sefydliadau triniaethau arbennig. Mae diffiniad y Deddfau hyn o "driniaethau arbennig" yr un fath â diffiniad Deddf Awdurdodau Lleol Llundain.

Gweithredwyr Awdurdod Lleol yng Nghymru

5.5 Pan wnaethom ddechrau'r ymchwiliad hwn, tri awdurdod lleol[52] yng Nghymru oedd yn darparu cyfleusterau gwelyau haul yn eu canolfannau. Ers hynny, mae pob un o'r tri wedi penderfynu cael gwared â gwelyau haul o'u canolfannau. Rydym yn croesawu hyn. Rydym hefyd yn nodi camau swyddogion Llywodraeth Cymru i ddwyn sylw awdurdodau lleol at dystiolaeth ynghylch risgiau gwelyau haul i iechyd[53].

Hunanreoleiddio

5.6 Mae'r Gymdeithas Gwelyau Haul yn gweithredu cod ymarfer ar gyfer ei aelodau, a amlinellwyd i ni mewn tystiolaeth ysgrifenedig[54]. Mae'r cod yn cynnwys gofynion yn y meysydd a ganlyn:

- goruchwylio cwsmeriaid;
- amseroedd hiraf y gellir dod i gysylltiad â phelydriad;
- cadw cofnodion, i fonitro defnydd cwsmeriaid o welyau haul;
- darparu gwybodaeth i gwsmeriaid ynglŷn â defnyddio cyfarpar yn gywir, a rhybudd ynglŷn â risg gynyddol o niwed i'r croen trwy ddod i ormod o gysylltiad â phelydriad;
- sgrinio cwsmeriaid o ran oedran (dan 16 oed), ffactorau risg (fel y math o groen) a hanes meddygol;
- defnyddio gogls ar y llygaid; a
- sicrhau bod cyfarpar mewn cyflwr gweithio da a'i fod yn cael ei lanweithio ar ôl ei ddefnyddio.

5.7 O ystyried mai 20% yn unig o gyfleusterau gwelyau haul y mae'r Gymdeithas Gwelyau Haul yn eu cynrychioli, a chan nad oes unrhyw fframwaith rheoleiddio eglur, nid yw'r rhan fwyaf o'r diwydiant gwelyau haul yn cael ei reoleiddio. Nid ydym yn gweld unrhyw dystiolaeth y

[49] Deddf Awdurdodau Lleol Llundain 1991 c.xiii
[50] ibid Adran 4
[51] Deddf Cyngor Dinas Birmingham 1990 a Deddf Cyngor Sir Swydd Nottingham 1985
[52] Sir y Fflint, Bro Morgannwg a Wrecsam
[53] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 4 (tudalen 2)
[54] Papur Pwyllgor 9 Gorffennaf – Cyf HWLG(3)-18-09 papur 3

byddai cyfran sylweddol uwch o'r diwydiant yn fodlon bod yn gyfrifol am hunanreoleiddio ac, o ystyried y cymhellion masnachol dan sylw, rydym yn amau'n fawr y byddai hunanreoleiddio'n effeithiol beth bynnag. Fel y dywedodd Julie Barratt o'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wrthym[55]:

> "Our concern about the Sunbed Association's code of practice is that it is guidance to operators; they are required to comply with it if they wish to be members of the Sunbed Association. I do not know what inspection regime the Sunbed Association has to ensure that its members comply with its guidance, but in the secret shopping that we undertook, we found that some of its members were not complying with their own guidance. I would therefore say that while it is there and we acknowledge it, we do not give it a great deal of credence."

Ac

> "If there are going to be guidelines and a code of practice, then enforcement is also needed. I question whether an industry can self-regulate. Our research suggests that it cannot. When you have 22 per cent, or thereabouts, of manned sunbed salons operating to a particular code of practice and the rest doing what they like, that uncertainty and lack of consistency is not good for the public. I do not think that the public is aware of the Sunbed Association and its code of practice, and so, people do not necessarily think, 'If I am going to use a sunbed, I'm going to select a premise that is a member of the Sunbed Association'. We have no evidence to suggest that they make that choice. They make their choice based on convenience and price.

Pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol i Ddeddfu

5.8 Dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn tystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn ystyried ystod o opsiynau deddfwriaethol posibl ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth, gan gynnwys[56]:

> "...deddfwriaeth sylfaenol a wneir gyda Llywodraeth y DU trwy Senedd San Steffan; is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru dan fantell deddfwriaeth sylfaenol bresennol; a chymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru."

5.9 Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd wrthym[57]:

> "Pursuing an LCO [Legislative Competence Order] would probably be the most time-consuming option, so I would like to look at the legislative options that might be available in that context."

5.10 Os oes yna bwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n bodoli a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio yn y maes hwn, byddem yn croesawu unrhyw eglurhad oddi wrth y Gweinidog o gwmpas a natur y pwerau hyn, a pha mor addas y gallent fod i reoleiddio neu drwyddedu'r diwydiant gwelyau haul.

---

[55] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 120
[56] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 papur 4 (tudalen 2)
[57] Cofnod y Trafodion - 30 Medi paragraff 290

5.11 Yn y cyfamser, y cyngor rydym ni wedi'i dderbyn yw nad yw'r cymhwysedd cyfreithiol gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd i ddeddfu yn y maes hwn.

Casgliadau

5.12 Ein casgliad yw:

- nad yw'n ymddangos bod yna unrhyw ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r DU gyfan sy'n rheoleiddio defnyddio cyfleusterau gwelyau haul;
- ei bod yn ymddangos bod gweithredwyr yn rhydd i anwybyddu'r cyfarwyddyd presennol os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a'i bod yn anodd ei weithredu a'i orfodi'n gyson;
- er bod rhywfaint o hunanreoleiddio o fewn y diwydiant, ei fod wedi'i gyfyngu i leiafrif gymharol fach o weithredwyr, ac nad yw'n debygol y byddai hunanreoleiddio ehangach yn effeithiol;
- nad yw'n ymddangos bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer ar hyn o bryd i reoleiddio gweithgareddau'r diwydiant;
- ei bod yn debygol y bydd angen trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol cyn y gall y Cynulliad ddeddfu yn y maes hwn.

Adran 6 – Yr Achos dros Fwy o Reoleiddio

A Oes Angen Rheoleiddio'r Diwydiant Gwelyau Haul?

6.1 Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwnaethom nodi bod nifer sylweddol o bobl, gan gynnwys plant ifanc, yn defnyddio cyfleusterau gwelyau haul. Mae hyn yn aml er gwaethaf bod yn ymwybodol o'r risgiau. Rydym hefyd wedi darganfod bod yna dystiolaeth dda i gefnogi cysylltiad achosol rhwng defnyddio gwelyau haul ac afiechydon difrifol ac angheuol. Nid yw buddiannau lliw haul wedi'u profi, a hyd yn oed os oes rhai, maent yn fach iawn.

6.2 Rydym hefyd wedi darganfod mai prin yw'r rheoleiddio statudol, os o gwbl, o'r diwydiant ar hyn o bryd, a bod unrhyw reoleiddio sydd yn bodoli'n anodd i'w weithredu a'i orfodi. Lleiafrif o'r diwydiant yn unig sy'n hunanreoleiddio. Hyd yn oed pe bai nifer y gweithredwyr sy'n hunanreoleiddio'n cynyddu'n sylweddol (sef rhywbeth sy'n dra annhebygol yn ein barn ni), mae'n bur debyg y byddai'r cymhelliad masnachol dealladwy i gael cymaint o incwm â phosibl yn debygol o fod ar draul pryderon ynglŷn ag iechyd.

6.3 Yn gynharach, gwnaethom godi'r cwestiwn ynglŷn â ph'un a yw risg ychwanegol dod i ormod o gysylltiad â phelydriad gwelyau haul mor fawr fel bod angen i'r gyfraith reoleiddio modd pobl o'u defnyddio. Dyma, efallai, yw'r cwestiwn canolog. Ydy gwelyau haul yn ddigon peryglus i fod angen eu rheoleiddio, ynteu a yw'r risgiau'n ddigon bach fel y dylid gadael i unigolion asesu heb fod angen rheoleiddio?

6.4 Rydym yn ymwybodol fod astudiaethau wedi amcangyfrif bod yna tua 100 o farwolaethau bob blwyddyn yn y DU yn sgil defnyddio gwelyau haul[58]. Er bod gweithredwyr gwelyau haul wedi herio'r amcangyfrifon hyn[59] mae'n ymddangos mai amcangyfrif pwyllog ydyw o risg gyffredinol gwelyau haul. Mae'n wir, wrth gymharu'r risg â risgiau eraill i iechyd fel ysmygu neu yfed, bod y ffigur o bosibl yn edrych braidd yn isel i rai. Fodd bynnag, mae'r rhain yn farwolaethau y mae'n gwbl bosibl eu hatal ac, wrth eu hystyried ochr yn ochr â chost sylweddol triniaeth i'r GIG, nid ydynt yn fater dibwys o bell ffordd.

6.5 Efallai mai'r ffactor arall sy'n gwneud defnyddio gwelyau haul yn wahanol i ysmygu neu yfed, sef gweithgareddau y mae eu heffeithiau'n adeiladu'n gyffredinol dros gyfnod o flynyddoedd, yw bod yr effeithiau'n gallu bod yn hynod ddifrifol (hyd yn oed yn angheuol o bosibl) ar ôl dod i gysylltiad â phelydriad unwaith yn unig. Efallai mai Jill McRae, y dioddefodd ei merch losgiadau difrifol o ganlyniad i ddefnyddio gwely haul, wnaeth ein hargyhoeddi'n fwyaf pwerus o hyn[60]:

> "On the day she visited the salon, my daughter spent approximately 19 minutes on a high-powered sunbed, the result of which was first degree burns to approximately 70 per cent of her body. Several hours after that session, she collapsed with the symptoms of heatstroke and

[58] Diffey, B. A quantitative estimate of melanoma mortality from ultraviolet A sunbed use in the UK. *Br J Dermatol* 149, 578-81 (2003).
[59] e.e. Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraff 291
[60] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraffau 20 a 24

was taken to hospital, where she required oxygen and intravenous drips to rehydrate her and to control the pain. It was like a very bad case of natural sunburn, but obviously accelerated over a much shorter time than would have happened naturally. She was in a great deal of pain for some time afterwards, and then she went through the natural process for any first degree burn, in that skin was shed and new skin formed. The process took about a fortnight, until she was fully healed on a superficial level. The bigger concern is that the underlying damage may not become evident for many years to come because it is a fairly substantial dose at a very young age."

Ac yn ddiweddarach…

> "… She lives with the knowledge that she may have done irreparable damage to her skin that may not become evident for years. She knows the implications because of the information that is now available about malignant melanoma, and that is something that will be in her mind for many years to come."

6.6 Gan gymryd pob un o'r ffactorau hyn i ystyriaeth, rydym o'r farn fod yna bellach angen profedig am reoleiddio'r diwydiant gwelyau haul yn statudol yng Nghymru. O ystyried bod cynghorau lleol yn Llundain, Birmingham a Nottingham yn gallu rheoleiddio cyfleusterau gwelyau haul, mae'n eironig ei bod yn ymddangos nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gallu gwneud hynny ar hyn o bryd. Rydym yn nodi bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried ceisio cymhwysedd deddfwriaeth i gyflwyno deddfwriaeth, ac nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu i gyflwyno rheoliadau yng Nghymru.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i geisio cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno deddfau newydd i drwyddedu a rheoleiddio cyfleusterau gwelyau haul a'u gweithredwyr a, lle bo angen, i orfodi rhwymedigaethau a chreu troseddau. [Argymhelliad 2]

Yr hyn y dylid ei gynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth

6.7 Nid yw'r mater o'r hyn y dylid ei gynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth mor bwysig ar hyn o bryd â sicrhau'r cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad. Rydym yn delio ag agweddau rheoleiddio unigol isod ond, yn ein barn ni, mae argymhellion 13[eg] adroddiad COMARE yn darparu templed rhagorol ar gyfer unrhyw drefn reoleiddio.

Rydym yn argymell y dylid seilio unrhyw ddeddfau newydd ar argymhellion 1 a 2 trydydd adroddiad ar ddeg COMARE ar yr effeithiau ar iechyd a'r risgiau yn sgil dod i gysylltiad â phelydriad uwchfioled o ddyfeisiau lliw haul. [Argymhelliad 3]

<u>Cyfyngiad Oedran</u>

6.8 Derbynnir yn unfrydol na ddylid caniatáu i blant dan 16 oed ddefnyddio gwelyau haul dan unrhyw amgylchiadau. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn awgrymu bod risgiau gwelyau haul yn fwy i'r rheini dan 30 oed.

6.9 Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Gymdeithas Gwelyau Haul a Consol Suncenter ill dau wedi dadlau bod pobl 17 a 18 oed yn ddigon aeddfed i bwyso a mesur risgiau defnyddio gwelyau haul drostynt eu hunain.

6.10 Nid yw'r ddadl hon wedi ein darbwyllo. Rydym yn nodi bod COMARE ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn argymell 18 oed fel yr oedran ieuengaf ar gyfer defnyddio gwelyau haul. Nid ydym o reidrwydd yn derbyn y ddadl nad oes yna unrhyw wahaniaeth rhwng math croen pobl ifanc 16-18 oed, ond rydym o'r farn fod yna ddadl eglur dros osod 18 oed, pan ddaw pobl i lawn oed, fel y pwynt priodol ar gyfer caniatáu i unigolion benderfynu drostynt eu hunain a fyddant yn defnyddio gwelyau haul ai peidio. Roedd crynodeb Sarah Woolnough o Ymchwil Canser y DU o hyn yn dda[61]:

> "We have discussed this with a number of Cancer Research UK funded researchers and other experts in the field. Obviously, it is arbitrary—any age at which you prohibit someone from doing something on a similar evidence base would be arbitrary. We feel that the balance of risk suggests that you do not want to put it at an older age, because adults can make their own choices as long as they are aware of the risks involved. That age is also consistent with tobacco and alcohol restrictions, and many other restrictions.
>
> We also know from looking at how many young people use sunbeds that a significant proportion of 16 and 17-year-olds use sunbeds regularly. So, we feel that setting the age at 18 is a reasonable step."

Rydym yn argymell y dylai unrhyw drefn reoleiddio a gyflwynir yng Nghymru osod 18 oed fel yr oed ieuengaf ar gyfer defnyddio gwely haul. [Argymhelliad 4]

<u>Goruchwylio</u>

6.11 Mae'r holl achosion rydym yn ymwybodol ohonynt lle mae gwelyau haul wedi achosi niwed sylweddol, gan gynnwys merch Jill McRae, yn rhai lle mae pobl ifanc wedi defnyddio cyfleusterau heb oruchwyliaeth neu "a weithredir gan ddarnau arian". Rydym yn nodi i Consol Suncenter yn ei dystiolaeth i ni ddadlau ei bod yn bosibl dweud beth yw oedran defnyddwyr o bell trwy ddefnyddio CCTV[62]. Rydym o'r farn fod yr honiad hwn yn chwerthinllyd. Mae'n ddigon anodd dweud beth yw oedran rhywun wyneb yn wyneb heb sôn am ddefnyddio CCTV. Dyma'n union pam mae safleoedd trwyddedig yn aml yn gofyn i gael gweld tystiolaeth adnabod cyn gwerthu alcohol.

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau bod goruchwyliaeth amser llawn gan staff hyfforddedig ar bob safle sy'n darparu cyfleusterau gwelyau haul. [Argymhelliad 5]

<u>Gwybodaeth i Ddefnyddwyr</u>

6.12 Rydym yn ymwybodol, o'r dystiolaeth, y bydd llawer o bobl yn parhau i ddefnyddio gwelyau haul, er eu bod yn dra hyddysg ynglŷn â'r risgiau. I

[61] Cofnod y Trafodion - 9 Gorffennaf paragraffau 37-38
[62] Cofnod y Trafodion 30 Medi paragraffau 94-110

oedolion mewn cymdeithas rydd, eu dewis nhw yw hyn. Fodd bynnag, bydd yna lawer o ddefnyddwyr na fyddant yn ymwybodol o'r holl risgiau, a bydd buddiannau iechyd tybiedig gwelyau haul yn dylanwadu ar lawer o ddefnyddwyr eraill. Mae hi felly'n bwysig iawn sicrhau bod y rheini sy'n defnyddio cyfleusterau'n cael gwybod am yr holl risgiau, ac nad yw honiadau gau o fuddiannau iechyd yn tanseilio'r negeseuon hyn.

Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru bennu, trwy reoliadau, yr wybodaeth y dylid ei darparu i ddefnyddwyr gwelyau haul, ac y dylid arddangos yr wybodaeth hon yn amlwg mewn cyfleusterau gwelyau haul. [Argymhelliad 6]

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau na ddylid caniatáu i gleientiaid ddefnyddio gwelyau haul oni bai eu bod wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac yn ddeallus ar sail gwybodaeth sy'n manylu ar y risgiau iechyd posibl dan sylw. [Argymhelliad 7]

Materion eraill

6.13 Rydym o'r farn fod fwy neu lai pawb yn cytuno bod angen gwisgo sbectol amddiffynnol wrth ddefnyddio gwelyau haul.

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau bod sbectol amddiffynnol yn orfodol i'r rheini sy'n defnyddio gwelyau haul. [Argymhelliad 8]

6.14 Rydym hefyd o'r farn fod risg defnyddio gwelyau haul lawer yn fwy i rai mathau penodol o groen nag i eraill. Er ein bod yn derbyn y gallai fod yn anodd bod yn gwbl gyfarwyddol ynglŷn â pha fathau o groen y dylid ac na ddylid caniatáu iddynt ddefnyddio gwelyau haul, dylai staff goruchwylio fod wedi'u hyfforddi i nodi grwpiau risg uwch, a dylent fod dan orfodaeth i ddwyn sylw'r cleient at hyn fel rhan o'r broses gydsynio ysgrifenedig.

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio bennu cyfarwyddyd i sicrhau bod grwpiau risg uchel yn cael eu nodi a'u bod yn cael eu hannog i beidio â defnyddio gwelyau haul. [Argymhelliad 9]

6.15 Mewn argymhelliad cynharach[63] gwnaethom ddwyn sylw at argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Gynhyrchion Defnyddwyr ynglŷn â lefelau arbelydriad gwelyau haul. Rydym o'r farn, p'un a yw'r canllawiau hyn yn cael eu gorfodi ai peidio, na ddylid caniatáu defnyddio gwelyau haul mewn cyfleusterau lliw haul oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau y dylid gwahardd gwelyau haul rhag cael eu defnyddio mewn canolfannau lliw haul masnachol os nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig ac Ewropeaidd ynglŷn â lefelau arbelydriad gwelyau haul. [Argymhelliad 10]

[63] Argymhelliad 1

Adran 7 - Materion Eraill

Honiadau Mewn Hysbysebion

7.1 Er nad ydym wedi cymryd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol ynglŷn â'r pwynt hwn, rydym yn pryderu bod rhai o'r honiadau sy'n ymwneud â Buddiannau Iechyd gwelyau haul nid yn unig yn amheus, ond y gallent fod yn gwbl gamarweiniol. Nid ein rôl ni yw barnu p'un a yw hyn yn wir ai peidio, ond rydym yn ddigon pryderus i ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried, ynghyd â'r awdurdodau perthnasol, p'un a yw'r wybodaeth hon yn groes i ddeddfwriaeth masnachu a hysbysebu sy'n bodoli.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, ynghyd â'r awdurdodau perthnasol, p'un a yw unrhyw wybodaeth am fuddiannau iechyd y mae gweithredwyr gwelyau haul yn ei darparu'n groes i ddeddfwriaeth masnachu a hysbysebu sy'n bodoli. [Argymhelliad 11]

Lliw Haul Naturiol ac Addysg

7.2 Byddai'n annheg rhoi'r argraff mai gwelyau haul yw'r unig beth, neu hyd yn y prif beth, sydd wedi achosi cynnydd mewn canser y croen. Er eu bod yn risg gwbl ddiangen y gellir ei hatal, sy'n gallu darparu dos uchel iawn o belydriad mewn amser byr, mae'n ymddangos yn fwy tebygol i ni mai heulwen naturiol yw'r prif beth sy'n achosi canserau'r croen. Mae croeso mawr i'r cynnydd yn ein dyhead a'n gallu i deithio dramor i wledydd â hinsawdd poeth, ond mae'n ymddangos bod hyn wedi arwain at gynnydd mewn cael lliw haul mewn pyliau.

7.2 Er ei fod, i bob pwrpas, y tu hwnt i gwmpas yr Ymchwiliad hwn, rydym o'r farn fod hyn yn fater iechyd sydd ar gynnydd ac yn un y mae angen rhoi sylw iddo. Dywedwyd wrthym fod Ymchwil Canser y DU yn derbyn tua £100,000 y flwyddyn oddi wrth y pedair Adran Iechyd yn y DU i redeg yr ymgyrch SunSmart flynyddol. Dywedodd Sarah Woolnough o Ymchwil Canser y DU wrthym[64] fod yr ymgyrch yn ceisio codi ymwybyddiaeth o risgiau canser y croen ac annog pobl i allu sylwi ar yr arwyddion a'r symptomau, ac yna mynd i weld meddyg teulu'n gynharach os oes ganddynt bryderon.

7.3 Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at yr ymgyrch SunSmart yn amrywio pob blwyddyn. Rhoddodd Ymchwil Canser y DU ffigyrau i ni[65] yn dangos cyfraniad blynyddol Llywodraeth Cymru at yr ymgyrch hon o naill ai £6,000 neu £6,500 ym mhob blwyddyn er 2003-04 (ar wahân i 2004-05, pan na wnaed unrhyw gyfraniad o gwbl). Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Prif Swyddog Meddygol wrthym[66] ein bod wedi bod yn ariannu'r ymgyrch hon yn ariannol er 2003-04. Mae'n amrywio pob blwyddyn gan ddibynnu ar yr ymgyrch arfaethedig, ond mae'r swm yn

[64] Cofnod y Trafodion 9 Gorffennaf paragraff 55

[65] Papur Pwyllgor 30 Medi – Cyf HWLG(3)-20-09 Papur 5

[66] Cofnod y Trafodion 30 Medi paragraff 263

amrywio o £8,600, sef y swm isaf, i £20,000, sef y swm uchaf. Nid ydym yn ystyried bod y gwahaniaeth yn y ffigyrau'n arwyddocaol iawn; rydym yn siŵr bod modd esbonio hyn.

7.4 Er hynny, pa bynnag ffigyrau a dderbynnir, maent yn symiau bach iawn o ystyried yr hyn sy'n dod yn duedd iechyd gynyddol ofidus. Rydym o'r farn y dylid cynyddu ymdrechion i addysgu'r cyhoedd ynglŷn â risgiau dod i ormod o gysylltiad â phelydriad yr haul, ac y dylid bellach ystyried cyfrannu mwy o arian at ymgyrch SunSmart. O ystyried y materion penodol rydym wedi'u nodi mewn mannau eraill ynglŷn ag agweddau pobl ifanc at liw haul, rydym o'r farn y dylai ffocws unrhyw wariant cynyddol fod yn bennaf ar y grŵp hwn.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, ochr yn ochr ag Adrannau Iechyd eraill y DU, cynyddu'n sylweddol yr arian y mae'n ei ddarparu ar gyfer yr ymgyrch SunSmart, yn enwedig o ran pobl ifanc. [Argymhelliad 12]

Adran 8 – Crynodeb o Argymhellion

Crynodeb o Argymhellion

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n darganfod oddi wrth Lywodraeth y DU p'un a yw argymhellion y Pwyllgor Gwyddonol ar Gynhyrchion Defnyddwyr ynglŷn â safonau arbelydriad o welyau haul yn cael eu gorfodi yn y DU ac, os nad ydynt, ei bod yn cyflwyno achos priodol. [Argymhelliad 1]

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i geisio cymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno deddfau newydd i drwyddedu a rheoleiddio cyfleusterau gwelyau haul a'u gweithredwyr a, lle bo angen, i orfodi rhwymedigaethau a chreu troseddau. [Argymhelliad 2]

Rydym yn argymell y dylid seilio unrhyw ddeddfau newydd ar argymhellion 1 a 2 trydydd adroddiad ar ddeg COMARE ar yr effeithiau ar iechyd a'r risgiau yn sgil dod i gysylltiad â phelydriad uwchfioled o ddyfeisiau lliw haul. [Argymhelliad 3]

Rydym yn argymell y dylai unrhyw drefn reoleiddio a gyflwynir yng Nghymru osod 18 oed fel yr oed ieuengaf ar gyfer defnyddio gwely haul. [Argymhelliad 4]

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau bod goruchwyliaeth amser llawn gan staff hyfforddedig ar bob safle sy'n darparu cyfleusterau gwelyau haul. [Argymhelliad 5]

Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru bennu, trwy reoliadau, yr wybodaeth y dylid ei darparu i ddefnyddwyr gwelyau haul, ac y dylid arddangos yr wybodaeth hon yn amlwg mewn cyfleusterau gwelyau haul. [Argymhelliad 6]

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau na ddylid caniatáu i gleientiaid ddefnyddio gwelyau haul oni bai eu bod wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac yn ddeallus ar sail gwybodaeth sy'n manylu ar y risgiau iechyd posibl dan sylw. [Argymhelliad 7]

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau bod sbectol amddiffynnol yn orfodol i'r rheini sy'n defnyddio gwelyau haul. [Argymhelliad 8]

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio bennu cyfarwyddyd i sicrhau bod grwpiau risg uchel yn cael eu nodi a'u bod yn cael eu hannog i beidio â defnyddio gwelyau haul. [Argymhelliad 9]

Rydym yn argymell y dylai'r drefn reoleiddio sicrhau y dylid gwahardd gwelyau haul rhag cael eu defnyddio mewn canolfannau lliw haul masnachol os nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig ac Ewropeaidd ynglŷn â lefelau arbelydriad gwelyau haul. [Argymhelliad 10]

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, ynghyd â'r awdurdodau perthnasol, p'un a yw unrhyw wybodaeth am fuddiannau iechyd y mae gweithredwyr gwelyau haul yn ei darparu'n groes i ddeddfwriaeth masnachu a hysbysebu sy'n bodoli. [Argymhelliad 11]

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried, ochr yn ochr ag Adrannau Iechyd eraill y DU, cynyddu'n sylweddol yr arian y mae'n ei ddarparu ar gyfer yr ymgyrch SunSmart, yn enwedig o ran pobl ifanc. [Argymhelliad 12]

Adran 9 - Monitro

9.1 Lle bo'n briodol, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd wrth roi ein hargymhellion ar waith cyn pen 12 mis o'u hymateb cychwynnol i'r adroddiad hwn.

10 Ychwanegiad - Gwybodaeth Bellach oddi wrth Consol Suncenter

10.1 Ar 26 Hydref, ar ôl i ni gytuno gyntaf ar ein hadroddiad, ysgrifennodd Consol Suncenter atom yn amgáu gwybodaeth ychwanegol o ymchwil i'r farchnad yn ymwneud â defnydd cwsmeriaid o gyfleusterau Consol Suncenter. Ceir copi o'u llythyr yn Atodiad Ch. Mae'r wybodaeth a amgaewyd gyda'u llythyr ar gael ar wahân ar ein gwefan.

Nifer y Cyfleusterau Heb Oruchwyliaeth

10.2 Mae'r llythyr yn herio'r ffigur o 46 o salonau lliw haul heb eu staffio yng Nghymru a gawsom oddi wrth Lywodraeth Cymru o arolwg o awdurdodau lleol yng Nghymru. Cyfeirir at yr wybodaeth hon ym mharagraff 3.2 yr adroddiad hwn. Ym mharagraff 3.4, rydym yn gwneud y sylw "byddai'n ymddangos o dystiolaeth y Gweinidog fod cyfran y canolfannau a weithredir gan ddarnau arian neu sydd heb oruchwyliaeth yng Nghymru'n sylweddol uwch ar 11% na'r 2% a amcangyfrifir ledled y DU."

10.3 Nid yw honiad Consol fod nifer y salonau heb eu staffio yng Nghymru'n is o lawer na 46 wedi'n darbwyllo. Mae'n ymddangos i ni bod arolwg Llywodraeth Cymru o leiaf yn rhesymol gadarn, a bod beirniadaeth Consol o'r fethodoleg braidd yn ddyfeisgar. Hyd yn oed pe baem yn derbyn bod y nifer yn gor-ddweud rhywfaint, nid ydym yn meddwl bod hyn yn herio yn y bôn ein barn y gall cyfran y canolfannau gwelyau haul a weithredir gan ddarnau arian neu sydd heb oruchwyliaeth yng Nghymru fod yn sylweddol uwch na'r 2% sydd wedi'i amcangyfrif ar gyfer y DU.

Gwybodaeth Arall

10.4 Mae'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd gyda'r llythyr yn cynnwys gwybodaeth amrywiol ar ddefnydd cwsmeriaid o gyfleusterau Consol. Mae'n anffodus nad oedd yr wybodaeth hon ar gael i ni cyn i Consol roi ei dystiolaeth lafar ac nad oeddem, felly, yn gallu edrych yn fanwl ar y dystiolaeth gyda nhw.

10.5 Fodd bynnag, nid ydym o'r farn fod yna unrhyw beth yn yr wybodaeth hon sy'n gwneud i ni amau'r casgliadau sylfaenol y seiliwyd ein hargymhellion arnynt. Rydym yn nodi'n enwedig bod yr wybodaeth, i bob golwg, yn dangos defnydd cymharol sylweddol ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 17 oed, yn ogystal ag ymhlith plant iau na hyn.

Atodiad A

Sefydliadau ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor

Y rheini a roddodd dystiolaeth	Yn cynrychioli
9 Gorffennaf 2009	
• Claire Bath – Swyddog Materion Cyhoeddus Cymru • Sarah Woolnough – Pennaeth Polisi	Ymchwil Canser y DU
• Jill McRae - Rhiant	
• Julie Barratt - Cyfarwyddwr	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
• Kathy Banks – Prif Weithredwr	Y Gymdeithas Gwelyau Haul
30 Medi 2009	
• Dr Andrew Dearden – Cadeirydd, Cyngor Cymru Cymdeithas Feddygol Prydain	Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru
• Sam Kirby – Rheolwr Materion Cyhoeddus	Consol Suncenter
• Dr Dafydd Roberts – Dermatolegydd Ymgynghorol	
• Edwina Hart AC - Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol • Dr Tony Jewell – Prif Swyddog Meddygol • Christopher Brereton – Dirprwy Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd	Llywodraeth Cymru - Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Atodiad B

Rhestr o Bapurau Pwyllgor a Ddarparwyd i Hwyluso Tystiolaeth ar Lafar

Dyddiad	**Enw'r Papur**	**Cyfeirnod y Papur**
9 Gorffennaf 2009	Ymchwil Canser y DU	Papur HWLG(3)-18-09-papur 1
9 Gorffennaf 2009	Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd	Papur HWLG(3)-18-09-papur 2
9 Gorffennaf 2009	Y Gymdeithas Gwelyau Haul	Papur HWLG(3)-18-09-papur 3
30 Medi 2009	Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru	Papur HWLG(3)-20-09-papur 1
30 Medi 2009	Consol Suncenter	Papur HWLG(3)-20-09-papur 2
30 Medi 2009	Dr Dafydd Roberts	Papur HWLG(3)-20-09-papur 3
30 Medi 2009	Llywodraeth Cymru	Papur HWLG(3)-20-09-papur 4
Tystiolaeth Ysgrifenedig Ychwanegol (yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar)		
30 Medi 2009	Ymchwil Canser y DU	Papur HWLG(3)-20-09-papur 5
30 Medi 2009	Y Gymdeithas Gwelyau Haul	Papur HWLG(3)-20-09-papur 6
[DYDDIAD]	[SEFYDLIAD]	[CYF]

Trawsgrifiadau

Gellir dod o hyd i gopïau o'r holl bapurau a thrawsgrifiadau cyfarfodydd yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-hwlg-home.htm

Atodiad C

Rhestr o'r Rheini a Ymatebodd i'r Galw am Dystiolaeth Ysgrifenedig

Fe ymatebodd y sefydliadau a ganlyn i'r galw am dystiolaeth ysgrifenedig

Sefydliad	**Cyfeirnod y Pwyllgor**
Comisiynydd Plant Cymru	Papur HWLG(3)-20-09-papur 7
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Cymru	Papur HWLG(3)-20-09-papur 8
Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru	Papur HWLG(3)-20-09-papur 9
Tenovus	Papur HWLG(3)-22-09-papur 10
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol	Papur HWLG(3)-22-09-papur 11

Sylwch nad yw'r rhestr uchod yn cynnwys unrhyw sefydliadau neu unigolion a nododd nad oeddynt am i'w manylion gael eu cyhoeddi.

Atodiad Ch

Llythyr dyddiedig 26 Hydref oddi wrth Consol Suncenter

FROM CONSOL SUNCENTER PLC
42 Old Market Street
Bristol BS2 0EZ.

26rd October 2009

Mr. Darrren Millar
Committee Chair
The Health, Wellbeing and Local Government Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Mr. Millar,

I am writing to you to outline further evidence and provide additional details as requested during the Committee Evidence session to which I was a witness.

It was noted in various media reports published on the day of my evidence session that there are a total of 46 unmanned tanning salons in Wales. We understand that this figure was achieved by asking Local Authorities in Wales to detail how many salons hold a license to operate tanning equipment. This, unfortunately, gives a distorted view of how many tanning salons exist as it includes individual beds that are not operated in salons. It is therefore not an accurate measure of unmanned salons. A license may be sought for a bed which is then operated in a gym, leisure facility or even a hotel but these should be classed as individual beds rather than salons.

It is Consol's belief that the number of unmanned salons in Wales is far lower than 46. This figure would presumably be even lower once a number of Local Authorities revoke licenses from some leisure facilities offering the use of UV tanning equipment, as previously reported.

/2.

I raise the issue of the number of salons vs. the number of beds which are classified as unmanned or partially staffed as I feel it of paramount importance that the committee is equipped with the correct information. It is also crucial to be aware of the full extent any possible legislation may have. I firmly believe that the most responsible and effective form of regulation needs to impact upon the whole industry and should include regulation of equipment and a strict limit on sunbed emissions according to an EU Declaration passed in July 2007[i] (we are the only company in the UK that fully complies with this.) Banning the handful of partially staffed salons in Wales will not significantly impact public health or safety and no scientific evidence exists to support it.

I mentioned in my evidence that Consol currently monitors use of its sunbeds and operates a strict "no under16s" policy. We are not aware of underage useage of our studios and this is supported by independent research – copies of which are attached.

I hope this additional information is of use. Should you have any further questions I would be very happy to provide further information. Once again I would like to express my thanks for allowing me to give evidence to the Committee. I look forward to hearing from you in the near future and eagerly await the Committee's report.

Yours sincerely

Sam Kirby

Enc.

---

[i] [i] Datganiad Grŵp LVD ADCO:

"At the18th meeting of the LVD Administrative Co-operation working group (ADCO) in Brussels on the 14th November 2006 the following was unanimously agreed by the Member States present:
- The Scientific Committee on Consumer Products (SCCP) Opinion on: Biological effects of ultraviolet radiation relevant to health with particular reference to sunbeds for cosmetic purposes represents the basis for good engineering practice in Europe in relation to the safety matters for such products.
- The recommendations shall be applied with effect six months from the publication of this Declaration.
- The maximum erythemal-weighted irradiance should not exceed 11 SED/h (0.3 W/m2)."